# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 8fed o Fedi 2022 yn ystafell Myrddin, Neuadd Chwilog a drwy Zoom yn brydlon am 7.30 o'r gloch.** Cynhaliwyd y cyfarfod hwn hefyd o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

**Yn bresennol** : Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Tegid Jones, Aled Davies, Sian Angharad Parry, Aled Lloyd Evans, Gareth O. Davies, Anwen Jones, Miriam Williams, Sion Aled Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Darren Morley, Thomas Prys Jones, Rhys Tudur, Delyth Parry a Dylan Thomas.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod** y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Orffennaf 2022. Y Cadeirydd yn llofnodi ei bod yn gywir.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Gorffennaf ac Awst 2022 gan y Cadeirydd.

4. **Datgan buddiant personol**. Neb.

5. **Materion gan Un Llais Cymru**

a) **Ymgynghoriad, 'Treth Cyngor Tecach'.** Mae'r ymgynghoriad hwn yn fyw rhwng 12 Gorffennaf a 4 Hydref 2022. **Derbyn ac i bawb ymateb yn unigol.**

b) **Ffurflen Archebu ar gyfer Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru** – Dydd Mercher 14 Medi 2022 - cynhelir y gynhadledd o bell. Y thema eleni fydd 'Paratoi Ein Hunain i Ddarparu Trefi a Chymunedau Llwyddiannus a Bywiog.' Bydd Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn agor y Gynhadledd ac bydd ystod eang o gyflwynwyr o sefydliadau eraill yn siarad. **Neb**.

c) **Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref** – yn son fod angen gwneud Adroddiadau Blynyddol, Cynllun Hyfforddi, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Pwer Cymhwysedd cyffredinol. **Bydd y Clerc wedi trefnu i wneud Adroddiad Blynyddol erbyn y cyfarfod nesaf a chreu cynllun hyfforddi.**

**ch) Bydd angen edrych ar y polisiau a gafodd ei diweddaru fis Mai 2021, i weld os angen gwneud unrhyw newidiadau neu ei derbyn fel ag y maent.**

ch) **Datblygiadau 'Un Blaned' Llywodraeth Cymru'**- gohirio a thrafod hyn yn nghyfarfod mis Hydref.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen waith trafnidiaeth a priffyrdd mis Medi 2022-derbyn.**

| **Lleoliad Gwaith** | **Disgrifiad o'r gwaith** | **Gwasanaeth** |
|---|---|---|
| Swn y Môr, Lôn Pandy | Draeniad | Priffyrdd |

7. **Cyngor Gwynedd** – ceisiadau cynllunio yn y gymuned
**Rhif Cais:C22/0572/41/AM – Golchdy, Afon Wen, LL53 6NQ**- cais amlinellol i ddarparu llety gwyliau a pharcio cysylltiedig yn cynnwys dymchwel adeilad presennol y Golchdy.

**Penderfynwyd gwrthod** oherwydd fod gorddatblygu twrisitaeth yn yr ardal yma, sef bod tua 10 safle gosod carafannau/siale rhwng Llanystumdwy ac Abererch yn barod. Mae gan Cyngor Gwynedd gynllun twristiaeth cynaladwy a dylid ymgyrraedd at yr hyn sydd ynddo. Hefyd, tua 20 mlynedd yn nol, gwnaed arolwg yno a darganfyddwyd fod llygredd mawr yno, a chostau enfawr i wneud y safle'n saff

**Materion yn y gymuned**.

8. **Llanystumdwy**
a) **Maen y Wern –** mae coeden onnen wedi marw yno ar dir y Cyngor Cymuned ger y Bedd – y Clerc wedi clywed y bydd swyddog o Cyngor Gwynedd yn ymweld â'r safle yn ystod y dyddiau nesaf. **Aros i weld beth oedd ei ymateb ac efallai holi Cyfoeth Naturiol Cymru.**

b) **Palmant rhwng y Neuadd am y bont** – mae'r palmant yn gul iawn a sawl twll ynddo (ger Swn-yr-Afon), ac yn anaddas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, ac angen palmant wedi gostwng ('dropped curb') cyn croesi'r lon am y bont. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

c) **Pont Llanystumdwy** – mae angen palmant wedi gostwng 'dropped curb' bob pen i'r llwybr sydd yn mynd ar hyd y llwybr cerdded dros y bont, oherwydd ar hyn o bryd mae defnyddwyr cadeiriau olwyn gorfod mynd ar y prif ffordd dros y bont. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.** .

**ch) Mynwent Newydd Llanystumdwy** – problemau parcio ar y palmant ar y ddwy ochr i'r ffordd rhwng Bontfechan a Thyddyn Sianel pan fydd angladdau mawr yno.

Cynhaliwyd cyfarfod safle yn y fynwent hefo Mr Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor 31.08.2022, hefo aelodau o Bwyllgor y Fynwent/Cyngor Cymuned, Cynghorydd Rhys Tudur a'r Clerc. Sylweddolwyd faint o draffig swnllyd oedd yn pasio ar wib yno, a bod y sefyllfa yn beryglus iawn.

Edrychwyd ar yr holl opsiynau posib gerllaw, sef ochr Llanystumdwy i'r fynwent, gan sylwi fod tyfiant mawr/coed angen ei glirio yno, lle roedd yr hen lon (sef o flaen wal y fynwent ac o dan y rhes dai at Tyddyn Sianel). Eglurodd byddai'n costio llawer o arian i glirio'r darn yma, a go brin y byddai gan Cyngor Gwynedd arian i wneud hynny.
Hefyd,mae'r goedlan rhwng y rhes dai a safle'r hen chwarel wedi cael ei gwerthu'n ddiweddar, ac mae giat wedi cael ei gosod ger y tŷ yn agos i'r fynwent.
Dywedodd Mr Gareth Roberts y byddai'n edrych ar y gofrestr Cofrestru Tir i weld pwy oedd perchnogion y darnau o dir oedd gerllaw, a gadael i ni wybod gyn gynted a phosib i weld beth fyddai'n bosib ei wneud. **Derbyn a disgwyl ymateb pellach gan Mr Gareth Roberts.**

**d) Problemau parcio gyferbyn a Maen y Wern, Llanystumdwy**

Nid oedd y mater yma ar y rhaglen wreiddiol, ond derbyniwyd cadarnhad gan y Gwasanaeth Traffig, ei bod yn derbyn sylwadau am 28 niwrnod o'r 08.09.22 i gyflwyno cyfyngiadau parcio, ar ddarn o'r lon yma, sef i beidio parcio yno o gwbl. **Derbyn**.

9. **Rhoslan/Ynys**

**Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan 'Achub Bywyd Cymru' ar 01.09.2022 ein bod **wedi bod yn llwyddianus mewn derbyn 2 diffibileiddiwr Zoll yn ddi-gost ganddynt.**
Maent angen y wybodaeth isod:-

- Penodi enw prif warchgeidwad ac enw wrth gefn.
- Bod sesiynau ymwybyddiaeth sgiliau CPR/diffibrilio ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â'r sefydliad/grwp wedi cael ei trefnu. Manylion cyswllt ar https://llyw.cymru/achub-bywyd-cymru
- Ar ol gosod y 2 gabinet gellir gysylltu hefo achubbywydcymru@wales.nhw.uk a bydd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn trefnu i ddarparu y 2 diffib i ni.
- Ar ol derbyn y 2 diffib bydd angen ei cofrestru ar 'Y Circuit' ar www.thecircuit.uk gan nodi y gwarchgeidwad sydd wedi ei enwebu. Bydd yna angen danfon yr ebost sy'n cadarnhau fod hyn wedi ei wneud at achubbywydcymru@wales.nhw.uk
- Rhwng 7-10 mlynedd yw oes y diffib, (mae hyn oherwydd bydd datblygiadau mewn technoleg yn y dyfodol), a bod ei dymheredd gweithredu yn -30˚ i +50˚c, a rhaid i'r lleithder cymharol fod rhwng 10% a 95%.
- Mae gwarant diffib Zoll yn parhau am 5 mlynedd, a gall ymestyn i 7 mlynedd os yw'n cael ei gofrestru gyda nhw.

Y Clerc eisioes wedi holi am brisiau gan 2 drydanwr i'w gosod nhw ac wedi derbyn un. Penderfynwyd derbyn yr un pris a dderbyniwyd gan Euros Hughes, a byddai'r 2 gabinet yn cael ei osod o fewn pythefnos.
Cyngorydd Sian Parry ac Anwen Jones am holi i gael enwau i fod yn gyfrifol amdanynt yn Rhoslan a Chapel y Beirdd, gan adael i'r Clerc wybod.
Mae 2 gabinet heb glo wedi cael ei archebu ar 03.09.2022, (yn dilyn derbyn cadarnhâd am y diffib) ac maent eisioes wedi cyrraedd ar 07.09.2022.

10. **Chwilog**
**Cae Chwarae Chwilog**
Cais gan Cynghorydd Rhys Tudur yn dilyn ymholiad am gael uwchraddio'r cae chwarae. Mae wedi holi swyddogion Cyngor Gwynedd, i weld beth oedd y sefyllfa, ond dywedwyd nad oedd ganddynt lawer o arian i uwchraddio'r cae chwarae.
Mae wedi derbyn cadarnhâd fod criw o rieni yn fodlon cyfarfod i drafod y bwriad o sefydlu pwyllgor yn Chwilog. **Gofynwyd i'r Clerc holi y Cynghorydd Rhys Tudur am ddyddiad addas rhywdro mis Hydref, ac yna gadael i bawb wybod.**

11. **Diffibileiddiwr Chwilog** – pryder wedi ei godi am pwy sydd yn gyfrifol amdano. Derbyniwyd gwybodaeth nad yw ar gael i'w ddefnyddio ar hyn o bryd oherwydd fod problem gynhenid gyda'r peiriant, a'i fod yn broblem sydd yn berthnasol i filoedd o unedau. Mae'r peiriant wedi cael ei anfon yn ol a bydd yn cael ei addasu ar 14.09.22, ac yn cael ei ddychwelyd cyn gynted a phosib yn ol i'r blwch. **Gofynwyd am ystyried cael ail diffib yn Chwilog, oherwydd fod y pentref yn tyfu, ac fe gaiff y mater ei drafod yn ein cyfarfod busnes a phwyllgor llawn ar 06.10.2022**

12. **Meddygfa Cricieth** – sawl cwyn gan gleifion yn dweud ei bod yn cael trafferth cysylltu â'r feddygfa dros y ffon a neb yn ateb. Y Clerc wedi anfon ymholiad at y Rheolwr ac wedi derbyn ymateb fod y broblem wedi cael ei datrys. **Cadw golwg ar y sefyllfa.**

13. **Pencaenewydd/Sardis**

14. **Llangybi**

**Arwydd 30 mya rhwng Capel Helyg a Groeslon Refail** wedi ei falu wrth dorri gwrych**. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

15. **Materion Ariannol**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 07.09.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Gwnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi yn ystod y cyfarfod cyn ei talu).

16. **Praesept** – derbyniwyd yr ail hanner o'r praesept sef £9180.00 ar 31.08.2022 gan Cyngor Gwynedd.

17. **Treth ar werth** – wedi hawlio **£311.63** yn nol am y flwyddyn 01.04.2021 – 31.03.2022. Wrth fynd drwy'r rhestr llynedd, sylwi nad oes TAW ar yswiriant Zurich, felly ar y cyfrifon diwedd flwyddyn a wnaed 07.04.2022, nodwyd fod y ffigwr TAW yn £391.72, ond £311.63 y dylai fod. **Derbyn.**

18. **Archwilio allanol llawn gan Llywodraeth Cymru.** – y Clerc wedi anfon y dogfennau i gael ei archwilio drwy ebost at yr Archwilwyr Cymru. Hefyd mae rhybudd hysbysiad archwilio wedi cael ei osod ar bob hysbysfwrdd ac ar wefan y Cyngor, yn pennu'r dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad. Mae trefn newydd ar gyfer yr archwilio allanol yn bodoli bob 3 mlynedd, ac eleni mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn cael archwiliad llawn. Mae'r Clerc wedi danfon gweddill y dogfennau papur at swyddog o Archwilio Cymru i swyddfa Cyngor Gwynedd, Caernarfon ar 06.09.2022. Byddant yn cwblhau'r gwaith yn ystod Medi a Hydref 2022. **Derbyn.**

19. **Rhestr datganiad blynyddol o gydnabyddiaeth a wnaed i gynghorwyr** – bydd angen i'r Clerc ei anfon at banel annibynol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol erbyn 30.09.2022. **Nid oedd neb wedi dewis derbyn y lwfans yma o £150.00 am y flwyddyn yn diweddu 31.03.2022.**

Mae'r Clerc wedi anfon y ffurflen 'Lwfans Cynghorwyr' am y flwyddyn 01.04.2022-31.03.2023 at bawb o flaen y cyfarfod ac wedi derbyn rhai yn nol.

20. **Enwau pontydd**
Mae nifer o'r 11 arwydd llechi wedi cael ei gosod erbyn hyn gan Cyngor Gwynedd.
Derbyniwyd cais y dylid trafod ymhellach enwau rhai pontydd nad oedd wedi cael ei cynnwys:

- Pont y Felin (sef Pont Melin Plas Du)
- Pont Gaerddu Bach
- Pont Ffridd Lwyd (Pont Afonwen) ar y briffordd
- Pont Llanystumdwy
- Pont Rhydygwystl
- Pont y Felin, Chwilog
- Pont yr Inn, Chwilog-(byddai Garej Pandy ger hon cyn symud i Benygroes, Llanystumdwy)
- Pont Ty'n Gors, ger Ty'n Gors, Llanarmon
- Pont Stesion Llangybi (ger Glandwr)

**Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod busnes ar 06.10.2022**

21. **Cais am arian i Fynwent Chwilog, glanhau cerrig beddi** – i lanhau/ail lythrennu bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol flwyddyn nesaf. Nodwyd fod beddi eraill yn yr ardal angen ei tacluso hefyd. Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru byddai cyfrannu at waith fel hyn yn lles i fywyd diwylliannol a hanesyddol y gymuned, felly gellir talu o dan Adran 137 o'r Ddeddf.
Cynhaliwyd Is-bwyllgor drwy 'zoom' ar 05.05.2022, rhwng Cyngorydd Aled Davies, Thomas Prys Jones, Rhys Tudur a'r Clerc. Trafodwyd y posiblrwydd o fedru holi am arian grant, i ail lythrennu y cerrig beddi. Hefyd byddai'n ddelfrydol trefnu i greu taflen addysgol am hanes enwogion yr ardal, ac o bosib cael hysbysfwrdd gwybodaeth. Gellir wedyn ychwanegu'r wybodaeth a lluniau ar wefan y Cyngor Cymuned. **Ni dderbyniwyd arian grant, felly angen penderfynu os gellir gyfrannu'n ariannol i Fynwent Chwilog. Penderfynu trafod hyn yn ein cyfarfod busnes ar 06.10.2022.**

22. **Cof Eifionydd** – Cynghorydd Rhys Tudur wedi cyfarfod efo'r Ffynnon, a maent yn fodlon rhoi pob cyfrol o'r Ffynnon i ni cyn belled ag ein bod yn disgwyl 3 mis wedi cyhoeddi'r rhai newydd. Mae'r Cynghorydd Miriam Williams wedi cadarnhau ei bod yn bosib cynnal cyfarfodydd i drafod hyn yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy.
**Angen dewis dyddiad ganol Hydref ar gyfer cyfarfod.**

Mae'r Clerc wedi derbyn gwybodaeth fanwl am bob un o'r enwogion isod gan Mr Dyfed Evans, a Sion Wyn o Eifion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones ac maent wedi cael ei teipio a'i archwilio, ac yn barod i'w defnyddio.
Mynwent Capel Helyg - Bedd Emrys a Cybi
Mynwent Eglwys Llangybi – Bedd Isaac Morris, Dewi Wyn a Gwilym Erch, Cae'r Go
Mynwent Chwilog – Bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd. **Derbyn**

23. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd 007950C0015238A | Archwilio mewnol-cyfrifon 2021/2022 | **180.00** | **36.00** | **216.00** | **216.00** |

24. Cyflog mis Awst 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2022<br>35 awr y mis x £11.50 = £402.50 | 402.50 =<br>Llai treth £80.60<br>= **£321.90** | **321.90** | **321.90** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Awst 2022 | 403.00 x 20% =<br>**£80.60** | **80.60** | **80.60** |
| Costau'r Clerc<br>Awst 2022 | £16.00 | **16.00** | **16.00** |

Cadarnhawyd mai ar y nos Iau **06.10.2022** fydd y cyfarfod nesaf am 7:30, yn Neuadd Chwilog eto a drwy zoom.

Cynnal cyfarfod Pwyllgor Cynllun Busnes/Cyllid o flaen y prif gyfarfod uchod am 6:45.

**<u>It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.</u>**